Cyllid & Tollau EM

# Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad a CYG Dosbarth 2

## Ynglŷn â'r ffurflen hon

Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi gan unigolyn sy'n dod yn bartner mewn partneriaeth, er mwyn cofrestru ar gyfer Hunanasesiad a CYG Dosbarth 2. Mae'n cynnwys cwestiynau sy'n helpu Cyllid a Thollau EF (CThEF) i benderfynu ynghylch eich anghenion o ran eich Ffurflen Dreth a'ch CYG Dosbarth 2.

Rhaid i'r bartneriaeth gofrestru ar wahân gan ddefnyddio ffurflen SA400 'Cofrestru partneriaeth ar gyfer Hunanasesiad'.

Dylai partneriaid nad ydynt yn unigolion, er enghraifft cwmnïau, Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) ac ymddiriedolaethau, lenwi ffurflen SA402 'Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad os nad yw'n unigolyn'.

Rhaid i bob partner lenwi ffurflen SA401 neu SA402 ar wahân, fel y bo'n briodol. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r partner eisoes yn dychwelyd Ffurflenni Treth ac wedi ei gofrestru ar gyfer Hunanasesiad yn ei enw ei hun.

**Beth i'w wneud ar ôl llenwi'r ffurflen**

Anfonwch eich SA401 a'ch 64-8, wedi'u llenwi, (os yn briodol) i:

Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyflogwyr
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

Gall y ffurflenni hyn gael eu hanfon ynghyd â'r SA400 ac unrhyw ffurflen SA401 a SA402, ond peidiwch ag atodi unrhyw beth arall.

**Penodi asiant**

Er mwyn awdurdodi asiant i weithredu ar eich rhan, gallwch naill ai lenwi ffurflen 64-8 'Awdurdodi eich asiant', neu ofyn i'ch asiant fynd ar-lein er mwyn cael yr awdurdod. Sylwer – nid yw awdurdod asiant a roddir ar gyfer y bartneriaeth yn cwmpasu'r partneriaid, felly bydd yn rhaid i chi awdurdodi'ch asiant i ddelio â'ch materion treth ar wahân. Holwch eich asiant ynghylch awdurdodi ar-lein, neu lawrlwythwch ffurflen 64-8 yn www.gov.uk/government/publications/ tax-agents-and-advisers-authorising-your-agent-64-8.cy

**Os oes angen help arnoch**

Os bydd angen help arnoch, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 191 200 1900.

I gael rhagor o wybodaeth am CYG Dosbarth 2, ewch i www.gov.uk/self-employed-national-insurance-rates

## Amdanoch chi

**1 Teitl**

Teitl – nodwch MR, MRS, MISS, MS neu deitl arall

**2 Cyfenw**

**3 Enwau cyntaf**

**4 Cyfeiriad** – anfonir y cyfeirnod i'r cyfeiriad hwn

Cod post

**5 Rhif ffôn**

**6 Dyddiad geni** DD MM BBBB

**7 Rhif Yswiriant Gwladol**

Mae angen i'r rhan fwyaf o bobl gael Rhif Yswiriant Gwladol (Rhif YG) er mwyn cofrestru ar gyfer Hunanasesiad. Os nad ydych yn gwybod beth yw'ch Rhif YG, edrychwch amdano ar eich slip cyflog, eich P60, neu unrhyw lythyr ynghylch treth, pensiynau neu fudd-daliadau, neu ewch i https://www.gov.uk/rhif-yswiriant-gwladol- coll Os nad ydych wedi cael Rhif YG o'r blaen, ac mae angen i chi wneud cais am un, ewch i https://www.gov.uk/gwneud-cais-am-rif-yswiriant-gwladol Os nad oes angen Rhif YG y DU arnoch, rhowch eich rhesymau isod

**8 A ydych yn breswylydd yn y DU?**

Os nad ydych yn siŵr sut i ateb y cwestiwn hwn, mae help pellach ar gael i chi yn www.gov.uk/tax-foreign-income/residence

Na ☐ Iawn ☐

## Amdanoch chi parhad

9 **A ydych wedi dod i'r DU o wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ystod y 12 mis diwethaf?**

Na ☐ Iawn ☐

Ticiwch yma os gwnaethoch gyrraedd yn y DU yn ddiweddar, ond yn ansicr am hyd eich arhosiad. ☐

10 **Os ydych wedi cofrestru ar gyfer Hunanasesiad yn flaenorol, beth yw eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)?**

11 **Ai chi yw'r partner enwebedig ar gyfer y bartneriaeth rydych yn ymuno?**

Na ☐ Iawn ☐

12 **Pryd y dechreuodd eich hunangyflogaeth?** DD MM BBBB

## Ynglŷn â'r bartneriaeth rydych wedi ymuno â hi

13 **Enw'r bartneriaeth**

14 **Cyfeiriad y bartneriaeth**

Cod post

15 **Beth yw natur y busnes a gyflawnir?**
Er enghraifft, plymwyr, busnes buddsoddi, peirianwyr trydanol

16 **Pryd y gwnaethoch ymuno â'r bartneriaeth?** DD MM BBBB

17 **Nodwch Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) y bartneriaeth, os oes un wedi'i ddyrannu eisoes**

18 **Os nad oes UTR wedi'i ddyrannu**

- Os cofrestrwyd y Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) neu'r Bartneriaeth Gyfyngedig (PG) hon gyda Thŷ'r Cwmnïau cyn 25 Hydref 2010, atodwch ffurflen SA400 er mwyn cofrestru'r bartneriaeth
- Os cofrestrwyd y PAC neu'r PG hon gyda Thŷ'r Cwmnïau ar 25 Hydref 2010, neu ar ôl hynny, nodwch Rif Cofrestru'r Cwmni (CRN) isod

19 **Ticiwch y blwch hwn os oes hawl gennych i gyfran o'r elw, colled ac incwm arall o'r bartneriaeth. Fel arall, gadewch yn wag** ☐

20 **Ticiwch y blwch hwn os yw'r bartneriaeth yn ymgymryd â physgota cyfran. Fel arall, gadewch yn wag** ☐

## Datganiad

Rwy'n datgan:

- bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- byddaf yn rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EF ar unwaith petai fy amgylchiadau'n newid mewn ffordd sy'n effeithio ar yr atebion a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon.

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB